# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 2**

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Dehongli*

PROSPECTIVE

**50 Dehongli'r Bennod hon**

(1) Yn y Bennod hon—

ystyr "awdurdod cofrestru" ("*registration authority*") yw'r person a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 30(2);

mae i "busnes tybaco neu nicotin" ("*tobacco or nicotine business*") yr ystyr a roddir yn adran 30(3);

mae i "cofrestredig" ac "wedi ei gofrestru" ("*registered*") yr ystyr a roddir yn adran 30(7);

ystyr "enw masnachu" ("*trading name*") yw enw y mae person yn cynnal busnes tybaco neu nicotin odano;

ystyr "y gofrestr" ("*the register*") yw'r gofrestr a gynhelir o dan adran 30(1);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw fan ac unrhyw strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd (ac eithrio trên, cwch neu long, awyren neu hofrenfad);

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 50 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ystyr "partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig" ("*limited liability partnership*") yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi ei ffurfio o dan Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000 (p.12);

mae i "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yr ystyr a roddir yn adran 39;

mae "tybaco" ("*tobacco*") yn cynnwys sigaréts, unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys tybaco ac y bwriedir ei ddefnyddio drwy'r geg neu'r trwyn, a chymysgeddau ysmygu y bwriedir eu defnyddio yn lle tybaco; ac mae "sigarét" ("*cigarette*") yn cynnwys tybaco sydd wedi ei dorri ac sydd wedi ei rolio mewn papur, deilen dybaco, neu ddeunydd arall ar ffurf fel bod modd ei ddefnyddio ar unwaith i'w ysmygu.

(2) Ystyr "cynnyrch nicotin", at ddibenion y Bennod hon, yw cynnyrch neu ddisgrifiad o gynnyrch a bennir mewn rheoliadau, ond nid yw'r canlynol i gael eu trin fel pe baent yn gynhyrchion nicotin—

(a) tybaco;

(b) papurau sigaréts;

(c) unrhyw ddyfais y bwriedir ei defnyddio i gymryd tybaco sydd wedi ei danio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 50 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2